

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD MEDI 2023
11 Medi 2023 19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

June Jones, Bethan Gritten, Cenwyn ap Tomos, Elin Jones, Glyn Griffiths

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Ymddiheuriadau

Siân Cwper

3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Misol 27 Mehefin 2023

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 27 Mehefin 2023, yn ddarostyngedig i gywiro'r gwall teipio yn enw June Jones.

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Bethan Gritten

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Cais Cynllunio Carreg Frech

Danfonwyd sylwadau pellach ar y cais cynllunio i Barc Cenedlaethol Eryri. Parheir i ddisgwyl ymateb pellach ganddynt ar y mater yma.

5.2 Y Ganolfan

Defnyddiwyd Y Ganolfan fel llecyn i orffwys gan orymdeithwyr CND Cymru oedd yn teithio o Drawsfynydd i'r Eisteddfod ym Moduan.

Mae'r grŵp pop Estella hefyd wedi defnyddio'r Ganolfan fel lle i ymarfer, ac am barhau i ddefnyddio'r Ganolfan ar gyfer hynny yn y dyfodol.

Cytunwyd codi £10 am bob tro y byddent yn defnyddio'r Ganolfan.

Er mwyn medru cynnig cyfarfodydd hybrid, ble gall aelodau neu'r cyhoedd ymuno o bell, mae angen cryfhau signal band eang yr ysgol, Gwynedd Ni. Cytunodd y Cynghorydd Bethan Gritten i edrych ar ymarferoldeb gosod bwster TP linc er mwyn medru cryfhau'r signal.

Mae drws Y Ganolfan yn agor yn iawn erbyn hyn, ond fe gytunwyd y dylid paentio'r tu allan a'r ffrâm.

Cytunwyd i ofyn i Gerddi a Tai Taclus am bris i baentio'r drws.

5.3 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymdra 20 m.y.a.

Mae rhai aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn gofyn pam fod pentref Rhyd wedi cael ei eithrio o'r cyflymder 20 m.y.a. newydd.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones holi adran drafnidiaeth Cyngor Gwynedd am y rheswm dros hyn.

5.4 Cysgodfan Fysiau

Mynychodd Chris Wilderspin, pensaer o Harlech, sydd wedi cytuno i gynorthwyo efo dylunio'r cysgodfan fws.

Trafodwyd anghenion a manyleb y gysgodfan.

Cytunodd i lunio cynlluniau erbyn cyfarfod 6 Tachwedd, a'r gobaith yw y bydd hi'n bosibl trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw ym mis Rhagfyr.

Diolchwyd iddo am ei gymorth parod.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones holi pa grantiau allai fod ar gael gan Gyngor Gwynedd er mwyn creu'r gysgodfan gan obeithio medru adrodd ar hyn yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Mae'n bosibl hefyd y byddai cymorth ariannol ar gael drwy dreth tirlenwi chwarel Breedon ym Minffordd.

5.5 Mynwent Tan Lan

Mae'r clawdd wedi dymchwel rhwng y giât mochyn am Ramoth, gan achosi bwlch sydd wedi golygu fod defaid wedi medru dod i mewn i'r fynwent.

Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths ofyn i Dylan Edwards ei drwsio gan fod angen ei wneud ar fyrder, er mwyn lleihau unrhyw ddifrod pellach.

Mae piler sydd ar ddechrau'r ffordd i mewn i'r fynwent, ar yr ochr chwith, wedi dechrau cwmpo Bydd angen ei ail godi.

Cytunwyd i gael 3 pris am ail godi'r piler.

Penderfynwyd y byddai'n dda cael rheolau ar gyfer y fynwent, ac fe gytunodd y Clerc eu drafftio ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod Tachwedd.

5.6 Clymog Siapan, Pont Haearn, Afon Caseg

Cytunwyd i ofyn i Peter Roberts chwistrellu'r Clymog Siapan ar gost o £100. Mae'n dasg gweddol anodd oherwydd bod yna lethr serth, ac mae angen gwneud y chwistrellu erbyn diwedd mis Medi, er mwyn iddo fod yn effeithiol.

Roedd angen hefyd gysylltu efo James West yn Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn mynegi pryder am orlifo posibl yr afon Glaslyn yn Llanfrothen, a hynny oherwydd bod angen clirio ac agor y darn hynny o'r afon o Rhianfa hyd at y bont ger yr A4085.

5.7 13 Garreg Frech

Cafodd Mabon ap Gwynfor ymateb gan Gyngor Gwynedd, yn dweud fod Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Grŵp Gweithredol i fynd i'r afael ag eiddo gwag sy'n creu problemau yng nghymunedau Gwynedd.

Yn ogystal, mae'r adran dreth cyngor wedi cadarnhau eu bod am gyflwyno rhestr o ddyledion treth cyngor i Lys Ynadon Caernarfon, er mwyn ceisio gorchymyn dyled i'w osod fel Gorchymyn Arwystl ar eiddo sydd â dyledion treth cyngor yn ddyledus. Bydd hyn yn galluogi Cyngor Gwynedd i fedru symud ymlaen gyda chamau gorfodaeth er mwyn gorfodi gwerthu eiddo gwag o'r fath sy'n achosi problemau oherwydd eu cyflwr.

Yn ogystal, mae'r Adran Dai yn y broses o benodi Swyddog Tai Gwag ychwanegol. Bydd y Swyddog yn canolbwyntio ar faterion megis gorfodaeth, ac yn rhan o brotocol newydd o gyd-weithio trawsadrannol, efo'r bwriad o ddod ac eiddo gwag problemus yn ôl i ddefnydd.

Cysylltodd y Cynghorydd June Jones efo adran gorfodaeth tai Parc Cenedlaethol Eryri, ond eu hymateb hwy oedd na fedran nhw wneud dim byd am 13 Garreg Frech am nad oedd cyflwr yr eiddo yn ddigon drwg.

Mae'n bosibl ysgrifennu at adran iechyd ac amgylchedd Cyngor Gwynedd ond byddan nhw angen caniatâd preswylwr y tŷ drws nesaf cyn ystyried gwneud dim. Cytunodd y Cynghorydd June Jones i gysylltu efo perchennog y tŷ drws nesaf.

5.8 Tafarn y Ring

Mae'r cyn Landlord Emllyn Roberts wedi cytuno i redeg y dafarn am gyfnod o 6 mis, wedi i fragdy Robinson gytuno i fuddsoddi yn yr adeilad. Gobeithir y bydd hyn yn arwain at ddenu tenant hirdymor.

5.9 Llwybr Llanfrothen - Penrhyndeudraeth

Mae Perchennog Morawel, ger is-orsaf Scottish Power, yn fodlon ystyried gwerthu darn bach o dir sydd wrth ochr yr A4085, pe byddai yna gynllun

mewn lle i gael llwybr cerdded a beicio rhwng Llanfrothen a Phenrhyndeudraeth.

Cytunwyd i ail-edrych ar y cynlluniau gwreiddiol a baratowyd gan Gyngor Gwynedd yn 2016 a'u trafod yng nghyfarfod Tachwedd.

6. Materion Ariannol

- 6.1** Cyflog Clerc Gorffennaf 2023 £239.72
TWE £59.80
- 6.2** Cyflog Clerc Awst 2023 £239.72
TWE £59.80
- 6.3** Costau cyfrif HSBC prif gyfrif 21041169 hyd at 5 Gorffennaf 2023 - £8.00, 5 Awst 2023 £8.00
- 6.4** Cymru 1 Limited £422.40 Anfoneb 9366 1 Gorffennaf 2023
- 6.5** Anfoneb Dunn & Ellis Anfoneb 14461731 23/07/2023 £59.40
- 6.6** yuenergy 10 Gorffennaf £17.52, 9 Awst £18.06
- 6.7** Ffi Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd 2022/23 £282.00
- 6.8** Nia Povey, nwyddau i'r Ganolfan £11.60
- 6.9** Nia Povey blodau Mynwent Tan Lan £19.75
- 6.10** Nia Povey blodau Mynwent Tan Lan £22.97
- 6.11** Derbyn tâl claddu Pritchard & Griffiths, 31 Gorffennaf 2023 £1,250.00
- 6.12** Derbyn ad-daliad TAW 2022/23, 24 Awst 2023, £199.90
- 6.13** Derbyn ail daliad praesept 2023/24, Cyngor Gwynedd, £5,150.00
- 6.14** Balans yn y prif gyfrif 29 Awst 2023 £18,278.22
- 6.15** Balans yn y cyfrif cadw 29 Awst 2023 £21,342.50

7. Gohebiaeth

Dim

8. Cynllunio

Sunrise, Penrhyndeudraeth.

Derbyniwyd cwyn gam aelod o'r cyhoedd fod gwaith posibl yn digwydd heb ganiatad cynllunio yn Sunrise, Penrhyndeudraeth.

Gofynnwyd i'r ysgrifennu at adran gorfodaeth cynllunio Cyngor Gwynedd, a gofyn iddyn nhw ymchwilio i'r mater.

9. Materion Eraill

9.1 Gwefan Bro 360

Cytunwyd nad oedd gan y cyngor cymuned yr adnoddau i fedru gweithredu a darparu digon o gynnwys ar gyfer gwefan Bro 360 ar gyfer ardal cymuned Llanfrothen.

9.2 Cymeradwyo Cynllun Bioamrywiaeth

Cymeradwywyd y Cynllun Bioamrywiaeth

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Elin Jones

9.3 Cau Ffordd

Cafwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd wedi i'r ffordd yng Nghroesor gael ei chau yn ddiweddar.

Doedd dim digon o bobl ar gael i reoli'r traffig, ac felly anodd oedd hi i bobl leol gael mynediad.

Cytunwyd i nodi'r gwyn ac os oes problem debyg yn codi eto, mynd ar ôl y darparwr oedd yn cau'r ffordd a chysylltu â Chyngor Gwynedd hefyd.

9.4 Bws i Feddgelert

Mynegodd y Cynghorydd Elin Jones nad oedd hi'n glir ble roedd rhywrai i fod i ddal y bws am Feddgelert o Lanfrothen.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones i holi adran drafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

9.5 Gordyfiant ger Llwyn Onn

Ceir gordyfiant dros y ffordd i Llwyn Onn cyn Tan Lan sy'n mynd drosodd i'r ffordd.

Cytunwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ymdrin ag ef.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 6 Tachwedd 2023 am 7 yr hwyr

